*Statws* *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 2623 (Cy.218)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Rheoliadau Traffordd yr M4 (Cyffordd 41, Slipffordd Ymadael tua'r Gorllewin, Cylchfan Sunnycroft, Baglan, Castell-nedd Port Talbot) (Terfyn Cyflymder 50 MYA) 2010

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *25 Hydref 2010* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *28 Hydref 2010* |
| *Yn dod i rym - -* | *18 Tachwedd 2010* |

Mae Gweinidogion Cymru, wrth arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 17(2) a (3) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) ac ar ôl ymgynghori â'r fath gyrff cynrychioliadol ag y tybiwyd oedd yn briodol yn unol ag adran 134(2) o'r Ddeddf honno(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

### Enwi, cychwyn a dehongli

**1.** Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 18 Tachwedd 2010 a'u henw yw Rheoliadau Traffordd yr M4 (Cyffordd 41, Slipffordd Ymadael tua'r Gorllewin, Cylchfan Sunnycroft, Baglan, Castell-nedd Port Talbot) (Terfyn Cyflymder 50 MYA) 2010.

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "traffordd yr M4" yw traffordd yr M4 o Lundain i Dde Cymru.

### Gosod terfyn cyflymder

**3.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn hwnnw o'r slipffordd ymadael tua'r gorllewin oddi ar Gyffordd 41 traffordd yr M4 sy'n ymestyn o bwynt 330 o fetrau i'r de-ddwyrain o'i chyffordd â'r gerbytffordd gylchynnol ar Gylchfan Sunnycroft, Baglan, ym Mwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot hyd at bwynt lle mae'n ymuno â'r gerbytffordd gylchynnol honno.

(**1**) 1984 p.27. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, ac adran 162 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(**2**) Diwygiwyd adran 134(2) gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22), Atodlen 8, paragraff 77.

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

*Ieuan Wyn Jones*
Y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth,
un o Weinidogion Cymru

25 Hydref 2010

---

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r pŵer i wneud rheoliadau ynghylch defnyddio ffyrdd arbennig o dan adran 17(2) a (3) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (ac eithro ynghylch ffyrdd arbennig yn gyffredinol) yn gorwedd gyda Gweinidogion Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru.

Mae Gweinidogion Cymru, wrth arfer y pŵer uchod, yn gwneud y Rheoliadau hyn sy'n gosod terfyn cyflymder eithaf o 50 milltir yr awr (yn lle'r terfyn cyflymder cyffredinol o 70 milltir yr awr a osodir ar draffyrdd gan Reoliadau Traffig Traffyrdd (Terfyn Cyflymder) 1974 (O.S.1974/502)) ar y darn o draffordd yr M4 a bennir yn y Rheoliadau.

Ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol llawn ar gyfer yr offeryn hwn gan mai am resymau diogelwch ar y briffordd y'i gwnaed ac ni fydd yn cael unrhyw effaith ar gostau busnes.